**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Cynulliad Natur y Bobl

25 Awst 2023

Cynllun Natur y Bobl

Diolch am eich llythyr dyddiedig 16 Awst, a anfonwyd ataf fel Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd, yn gofyn am ymateb i Gynllun Natur y Bobl.

Rôl y Pwyllgor yw craffu ar bolisïau Llywodraeth Cymru a'i dwyn i gyfrif. Yn ystod y gwaith craffu hwnnw, mae'r Pwyllgor yn ystyried sut y mae polisïau Llywodraeth Cymru yn ystyried yr argyfwng natur y gwnaeth y Senedd ei ddatgan ar 30 Mehefin 2021, a chyflawni'r nodau sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae enghreifftiau diweddar o hyn yn cynnwys ein gwaith craffu deddfwriaethol ar Fil Amaethyddiaeth (Cymru), sef Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 bellach, wrth iddo fynd drwy'r Senedd. Trafodom sut y gall ei hegwyddorion rheoli tir yn gynaliadwy sicrhau cydnerthedd economaidd cymunedau ffermio Cymru, cynorthwyo adferiad byd natur a diogelu bioamrywiaeth. Buom yn ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys y sefydliadau hynny sy'n pweru Cynllun Natur y Bobl, a buom yn gweithio mewn partneriaeth agos ag aelodau o Bwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith y Senedd.

Mae ein hargymhellion ar egwyddorion cyffredinol y Bil i'w gweld ar ein gwefan. Yn benodol, roedd Argymhelliad 7 yn gwahodd y Gweinidog i ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid ar newidiadau i eiriad yr amcanion rheoli tir yn gynaliadwy, ac roedd Argymhelliad 8 yn gofyn i'r Gweinidog ystyried cynnwys adferiad byd natur yn fwy penodol yng ngeiriad y Bil. Roedd Argymhelliad 12 yn gofyn am ei gwneud yn gliriach nad oes hierarchaeth i'r amcanion, a'u cysylltu'n agosach â geiriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am fwy o eglurder ynghylch bwriadau'r Gweinidog o ran Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r llinell sylfaen reoleiddiol ar gyfer y sector amaethyddol (Argymhelliad 4). Mae ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn nodi ei safbwynt ar bob un o'r argymhellion.

Bu’r Pwyllgor hefyd yn craffu ar Fil Bwyd (Cymru). Ni dderbyniwyd egwyddorion cyffredinol y Bil Aelod hwn gan y Senedd, ond serch hynny, gwnaeth y Pwyllgor argymhellion cryf i Lywodraeth Cymru ar ei dull gweithredu ym maes polisi a strategaeth bwyd cenedlaethol. Yn benodol, galwodd Argymhelliad 2 ar Lywodraeth Cymru i wella ei dull o ymdrin â'r system fwyd drwy sicrhau bod polisïau'n gydgysylltiedig ac yn cyd-fynd, a galwodd Argymhelliad 8 am fwrdd polisi bwyd mewnol neu weithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol i greu swydd systemau bwyd bwrpasol i lywio polisi bwyd cydgysylltiedig yng Nghymru. Mae hyn gyda’r dyhead o ddarparu “bwyd fforddiadwy ac iach sy'n economaidd, yn amgylcheddol, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol gynaliadwy i bobl nawr ac yn y dyfodol”. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adroddiad ym mis Mai 2023.

Yn ein sesiynau craffu cyffredinol gyda’r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd, rydym yn holi cwestiynau’n rheolaidd am faterion a godwyd gan Gynllun Natur y Bobl, gan gynnwys cwestiynau ynghylch cynhyrchu a bwyta bwyd, ffermio er lles natur, pysgodfeydd a diogelu dyfrffyrdd rhag llygredd amaethyddiaeth. Rydym yn ystyried datblygu cynaliadwy yn ei gyfanrwydd fel rhan o’n gwaith, gan gynnwys yn ein sesiynau craffu blynyddol ar y gyllideb, lle mae nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 unwaith eto yn cael lle amlwg.

Mae ein gwaith ymgysyllltu rheolaidd â rhanddeiliaid yn cynnwys cyfres o gyfarfodydd diweddar yn Sioe Frenhinol Cymru. Ers ei sefydlu yn 2021, mae’r Pwyllgor wedi ymweld â nifer o ffermydd, gan gynnwys un sy’n cael ei rhedeg gan aelod o’r Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur, ac mae wedi ymweld â champws Gelli Aur yng Ngholeg Sir Gâr i weld datblygiadau technolegol i leihau llygredd amaethyddol.

Un o gryfderau’r Pwyllgor yw natur drawsbleidiol ei aelodaeth, ac mae’n bwysig ar gyfer gyrru newid yn ei flaen. Mae’r gorgyffwrdd â chylchoedd gwaith Pwyllgorau eraill y Senedd, fel y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith, hefyd yn cael ei ystyried wrth gynllunio’r rhaglen waith, ac mae ein hymgynghoriadau yn dryloyw ac yn gyhoeddus gan fod ein gwaith yn dibynnu ar gorff cryf o dystiolaeth.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg